OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 949

## Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ymchwiliadau Safonau) 2006

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ymchwiliadau Safonau) 2006 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000; ac

ystyr "Deddf 2005" ("*the 2005 Act*") yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005(**1**).

### Cymhwyso darpariaethau Deddf 2000

**2.** At ddibenion ymchwiliadau o dan adran 69 o Ddeddf 2000, bydd darpariaethau'r Ddeddf honno fel y'u rhestrir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gymwys fel pe bai unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny—

(a) at swyddog safonau moesegol neu at y swyddog hwnnw yn gyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(b) at Fwrdd Safonau Lloegr yn gyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(c) at Loegr yn gyfeiriad at Gymru;

(ch) at adran 59 yn gyfeiriad at adran 69; a

(d) at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Cymhwyso darpariaethau yn Neddf 2000 gydag addasiadau

**3.** At ddibenion ymchwiliadau o dan adran 69 o Ddeddf 2000, bydd darpariaethau'r Ddeddf honno fel y'u rhestrir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau a ddangosir yn yr Atodlen honno.

### Cymhwyso darpariaethau yn Neddf 2005 gydag addasiadau

**4.** At ddibenion ymchwiliadau o dan adran 69 o Ddeddf 2000, bydd darpariaethau Deddf 2005 fel y'u rhestrir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau a ddangosir yn yr Atodlen honno.

### Y Gyfraith Ddifenwi

**5.** At ddibenion y gyfraith ddifenwi, bydd gan unrhyw ddatganiad (boed mewn ysgrifen neu ar lafar) a wneir gan—

(**1**) 2005 p.10.

(a) aelod o staff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon"); neu

(b) berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon

mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Ran III o Ddeddf 2000 fraint absoliwt.

**Dirymu**

**6.** Dirymir Gorchymyn Comisiynydd Lleol yng Nghymru (Ymchwiliadau Safonau) 2001(**2**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (**3**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

28 Mawrth 2006

(**2**) O.S. 2001/2286 (Cy.174).
(**3**) 1998 p.38.